# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Mawrth, 31 Hydref 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio**<br><br>Y Cynghorwyr Glyn Haynes, G O Jones, R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts, Margaret M. Roberts, Robin Williams<br><br>**Y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol), John Griffith (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Gwasanaethau Ieuenctid a Diwylliant), Alun Mummery (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau), R G Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 5)<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br>Rheolwr Busnes Gwasanaeth (Adfywio a Datblygu Economaidd)<br>Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Richard Owain Jones, Shaun Redmond, Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru), Richard Dew (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd a Phrosiectau Mawr), Ieuan Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynrychiolwyr Llais Ni (Cyngor Ieuenctid Môn) a'r Panel Dinasyddion |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol; estynnodd groeso arbennig i gynrychiolwyr Llais Ni (Cyngor Ieuenctid Môn) a'r Panel Dinasyddion a oedd yn bresennol i arsylwi rhan o'r cyfarfod.

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

## 2 COFNODION CYFARFOD 4 MEDI, 2017

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 4 Medi a 2 Hydref, 2017 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

Yn codi ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Medi, 2017 –

**Eitem 7: Adroddiad Blynyddol 2016/17 – Gwrando a Dysgu o Gwynion**

Diweddarwyd y Pwyllgor gan y Prif Weithredwr ynghylch dichonoldeb monitro trosiant Gweithwyr Cymdeithasol mewn perthynas â phlant sy’n derbyn gofal yn dilyn awgrym a wnaed gan y Pwyllgor y dylid monitro newidiadau o ran Gweithwyr Cymdeithasol sydd wedi’u neilltuo ar gyfer achosion Plant sy'n Derbyn Gofal, a hynny er mwyn cadw llygad ar yr effaith bosib ar y plentyn. Eglurodd y Prif Weithredwr fod y trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi newid yn dilyn cyflwyno’r system wybodaeth integredig WCCIS yn Ynys Môn yn ddiweddar. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd yn addasu i'r system newydd ac o ganlyniad mae'n gynamserol ac yn anymarferol ar hyn o bryd i geisio defnyddio'r system i gynhyrchu'r wybodaeth benodol hon. Gellid cynhyrchu'r wybodaeth yn faniwal ond byddai hynny'n golygu edrych ar bob ffeil achos sy’n waith llafurus a fyddai’n rhoi pwysau ychwanegol ar y Gwasanaethau Plant. Awgrymodd y dylid gohirio'r mater am y tro ac y dylid edrych arno eto pan fo'r system newydd wedi gwreiddio a phan fyddai’r Gwasanaeth yn gallu cyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf cyfoes i'r Pwyllgor.

**Penderfynwyd gohirio'r mater yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

## 3 CYNLLUN YMGYNGHORI AR Y GYLLIDEB 2018/19

Cyflwynwyd i’w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol a oedd yn ymgorffori cynllun arfaethedig ar gyfer cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Gyllideb 2018/19 o'r wythnos sy’n dechrau ar 6 Tachwedd hyd at 29 Rhagfyr, 2017.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol fod y cam gyntaf yn y broses ymgynghori wedi’i gwblhau, sef yr ymgynghoriad mewnol cychwynnol ar y Gyllideb h.y. gydag Aelodau Etholedig a Swyddogion o fewn y Cyngor. Mae'n rhaid i'r ail gam, sy'n cynnwys ymgynghori â dinasyddion Ynys Môn ar y cynigion, fod mor bellgyrhaeddol, cynhwysol a thrylwyr â phosib a rhaid cynnwys yr Ynys gyfan. Mae'r broses yn dilyn y patrwm a osodwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sef defnyddio amrywiaeth o sianeli i gyrraedd cymaint o ddinasyddion â phosib, gan gynnwys cynghorau tref a chymuned, gweithdai i randdeiliaid, y rhyngrwyd, y cyfryngau cymdeithasol, y panel dinasyddion a gweithdai i blant a phobl ifanc. Dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod yn rhagweld y byddai'r cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rhan amlwg yn yr ymgynghoriad eleni a’r flwyddyn nesaf fel ffordd o dderbyn sylwadau gan ddinasyddion. Fodd bynnag, un o'r amcanion allweddol yw sicrhau bod y broses yn ymgysylltu â'r grwpiau mwy bregus yn y gymuned a bod eu barn yn cael ei chlywed.

Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol fod y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori Corfforaethol wedi gwneud cryn dipyn o waith i adolygu'r broses yn dilyn yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus y llynedd ac i sicrhau bod y Cyngor yn ymwybodol o ffyrdd newydd o ymgysylltu ac yn eu defnyddio i ymgynghori â dinasyddion Ynys Môn ar bob lefel.

Ystyriodd y Pwyllgor yr Ymgynghoriad / Cynllun Cyfathrebu arfaethedig ar y Cynigion Ariannol a gwnaed y pwyntiau canlynol –

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch sut mae'r Cyngor yn monitro ac yn parhau i gadw i fyny â'r sylwadau a wnaed trwy Facebook a Twitter.

Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol fod ymateb i sylwadau a wnaed trwy gyfrwng sianeli cyfryngau cymdeithasol yn rhan annatod o waith Uned Gyfathrebu'r Cyngor. O ran y cynigion ariannol, y bwriad yw gofyn amrywiaeth o gwestiynau i'r ymatebwyr iddynt nodi a ydynt yn cytuno neu'n anghytuno, fel bod modd i'r Cyngor gael gwell syniad o deimladau dinasyddion am gynigion penodol. Felly, mae'r elfen hon o'r ymgynghoriad yn weddol hawdd i'w thracio a'i choladu. Mae'r Uned Gyfathrebu hefyd wedi arfer delio gydag ymatebion sylweddol i faterion y Cyngor fel rhan o'i gwaith dydd i ddydd ac felly bydd ymatebion o'r fath i'r cynigion ariannol yn cael sylw yn y ffordd arferol.

- Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor wedi cynnal adolygiad o'r broses ymgynghori a ddilynwyd y llynedd i ymgynghori ar y gyllideb er mwyn sefydlu beth oedd wedi gweithio a'r hyn y gellid ei wella. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y casgliadau y daethpwyd iddynt a'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad i'r ymarfer adolygu.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes fod y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori, wrth iddo ystyried y cynllun ymgynghori ar y Gyllideb eleni yn ei gyfarfod ar 12 Medi, 2017, wedi nodi y gellid gwella'r ymgysylltu â phartneriaid y Cyngor a'r ymatebion ganddynt. I'r perwyl hwnnw, bydd pwyslais ar gynnull Fforwm Partneriaid fel y gall y drafodaeth hon ddigwydd ar y sail bod y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yn parhau i weithredu o fewn amgylchedd ariannol sy'n gynyddol heriol ac felly mae'n bwysig gallu cydweithio i sicrhau'r ymatebion gorau posib. Yn ogystal, fel rhan o'r ymarfer eleni, bydd y Cyngor yn mynd ati'n wythnosol i ofyn cyfres o gwestiynau penodol a dargedwyd ar gyfer dinasyddion Ynys Môn, gan gynnwys ar Facebook a chyfryngau cymdeithasol eraill; mae hyn ynddo'i hun yn ddull newydd a gwell o weithredu o gymharu â'r hyn a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf pan ymgynghorwyd gyda'r cyhoedd ynghylch yr holl gynigion gyda'i gilydd.

- Nododd y Pwyllgor mai bwriad y Cyngor yw ceisio ymgynghori â'r holl ran-ddeiliaid. Nododd y Pwyllgor hefyd fod ymgysylltu'n effeithiol â grwpiau sy'n anoddach eu cyrraedd yn her; gofynnodd y Pwyllgor felly am wybodaeth am y camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd i adnabod y grwpiau hynny a'r mesurau y mae wedi'u rhoi ar waith i ymgysylltu â hwy.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes fod gwaith i ddatblygu'r broses ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed gan y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori Corfforaethol wedi arwain at bartneriaeth gref gyda Medrwn Môn ac yn benodol, o fewn y sefydliad hwnnw, gyda'r prosiect Lleisiau Lleol sy'n ddolen gyswllt gyda rhan-ddeiliaid sy'n anoddach eu cyrraedd. O ganlyniad i'r bartneriaeth hon, a'r fforwm hwn yn benodol, mae'r Cyngor mewn sefyllfa well i allu cywain barn yr unigolion hyn nad yw eu lleisiau yn cael eu clywed fel arall.

- Nododd y Pwyllgor y cyflwynir sylwadau drwy gyfrwng gweithdai i blant a phobl ifanc fel rhan o'r Cynllun Ymgynghori. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod y gweithdai

hyn yn cael y wybodaeth angenrheidiol i alluogi'r cyfranogwyr i gynnig barn ystyrlon ar gynigion y Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol fod Llais Ni, ynghyd â nifer o bartneriaid eraill, yn aelod parhaol o Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori corfforaethol y Cyngor, sy'n sicrhau bod persbectif y Cyngor ar ymgysylltu ac ymgynghori mor gynhwysol a thrylwyr â phosib.

Dywedodd y Cadeirydd fod Llais Ni (Cyngor Ieuenctid Môn) yn ymweld â'r Cyngor unwaith y flwyddyn (yn ystod cyfnod gosod y Gyllideb). 'Roedd yn credu y dylai'r ymweliadau hyn ddigwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn fel mater o arfer da ac y dylent gynnwys ymgysylltu'n rheolaidd â'r Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith.

• Nododd y Pwyllgor y beirniadwyd y cynllun ymgynghori mewn rhai blynyddoedd oherwydd iddo gael ei ysgrifennu mewn iaith sy'n anodd ei deall weithiau ac oherwydd nad oedd digon o fanylion ynddo i egluro rhai cynigion a'r hyn y maent yn ei olygu.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes fod yr adborth a gafwyd o'r cynllun ymgynghori y llynedd yn nodi nad oedd y cyhoedd yn deall rhai o'r cynigion yn iawn. Gofynnwyd am farn y Pwyllgor ynglŷn â pha mor eglur a dealladwy yw'r cynllun ymgynghori drafft eleni.

**Ar ôl ystyried y Cynllun, ac wedi iddo gael ei fodloni ynghylch y pwyntiau o eglurhad a godwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid gweithredu'r cynllun. Penderfynwyd cytuno ar y Cynllun Ymgynghori ar y Gyllideb ar gyfer 2018/19 ac argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn ei fabwysiadu.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 4 PANEL SGRIWTINI CYLLID

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn rhoi diweddariad ar y materion a gafodd sylw gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfodydd ar 17 Awst a 29 Medi, 2017.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y Panel wedi'i sefydlu fel y gallai grŵp o Aelodau Sgriwtini roi sylw manylach i faterion ariannol nag a ganiateir gan amserlen a rhaglen waith y rhiant-bwyllgor, a thrwy hynny ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r naratif y tu ôl i'r data cyllidebol ac ariannol a gyflwynir. Mae'r Panel wedi cyfarfod dair gwaith hyd yma ac er ei fod yn dal yn ddyddiau cynnar o ran y broses hon, ystyrir bod y panel yn gam cadarnhaol ymlaen wrth ddatblygu gwaith sgriwtini.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, cynrychiolydd o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar y Panel Sgriwtini Cyllid, fod y Panel wedi canolbwyntio ar fonitro'r Gyllideb ac, ar ôl dadansoddi adroddiad Chwarter 1 2017/18 ar y Gyllideb Refeniw, mae wedi nodi'r gorwariant yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu fel meysydd sy'n peri pryder ac wedi gofyn i'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol roi esboniad o'r mesurau lliniaru a gymerir i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae'r Panel hefyd wedi craffu ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol, yn enwedig yr egwyddorion a'r tybiaethau sy'n sail i'r cynllun ar gyfer y tair blynedd nesaf. Yn ei gyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 25 Hydref, edrychodd y Panel ar y broses o osod y gyllideb flynyddol, gan gynnwys craffu yn fanwl ar y cynigion cyllidebol cychwynnol.

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a gafwyd yn ôl gan y Panel Sgriwtini Cyllid a nododd hefyd fod y Panel yn dilyn i fyny'r pryder a fynegwyd ganddo mewn perthynas ag agweddau ar reolaeth gyllidebol yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu. Cyfeiriodd y Pwyllgor

at y defnydd o ynni a wneir gan y Cyngor a’r gwariant ar ynni a holodd a oedd unrhyw waith yn cael ei wneud ar y maes hwn. Nododd y Pwyllgor y gallai hwn fod yn faes cynhyrchiol ar gyfer sgriwtini, yn enwedig o ran y potensial am arbedion effeithlonrwydd, ac mai ynni yw un o'r gorbenion mwyaf y gellir eu rheoli o fewn adeiladau'r Cyngor.
Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol fod gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Ynni a fabwysiadwyd yn ddiweddar ac yr adroddir arni’n rheolaidd i'r Grŵp Asedau Tir ac Adeiladau Corfforaethol er mwyn sicrhau cynnydd yn erbyn y cynllun effeithlonrwydd ynni ac fel bod effeithlonrwydd ynni yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio ar gyfer asedau yn y dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ymdrechu i sicrhau bod y mater yn cael sylw fel y byddai Blaenraglen Waith y Pwyllgor yn ei ganiatáu.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma â gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid.**
- **Nodi yr ymddengys bod prosesau sy'n ymwneud â monitro cyllideb 2017/18 a gosod cyllideb 2018/19 ar y trywydd iawn.**
- **Nodi'r pryder a fynegwyd gan y Panel ynglŷn â'r gorwariant yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu a chymeradwyo'r camau dilyn-i-fyny a gymerir gan y Panel i sefydlu pa fesurau unioni sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gorwariant.**
- **Yn seiliedig ar y sicrwydd a ddarparwyd gan y Panel, argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod yr egwyddorion a'r tybiaethau sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canol arfaethedig yn gadarn ac yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael.**

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL A GYNIGIR: Bod y Rheolwr Sgriwtini, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, yn ystyried sut y gellid ymgorffori’r pwnc Rheoli Ynni ar gyfer sgriwtini o fewn cyfyngiadau'r Rhaglen Waith Sgriwtini.**

## 5 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyriodd y Pwyllgor fabwysiadu'r ddarpariaeth ganlynol:

"O dan Adran 100 (A) (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf honno a’r Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd. "

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mai mater i ddisgresiwn y Pwyllgor yw p'un a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd ai peidio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar gynigion cyllidebol cychwynnol 2018/19. Nid yw'r adroddiad ar gynigion cychwynnol y Gyllideb wedi'i gyhoeddi eto ac argymhellir gan Swyddogion nad yw'n cael ei gyhoeddi at ddibenion y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor ac na ddylai'r drafodaeth ar y mater ddigwydd yn gyhoeddus ar hyn o bryd. Dywedodd y Swyddog, o ran gweithredu’r Prawf Budd y Cyhoedd, bod dwy elfen i'w hystyried, sef –

- P'un a yw’r adroddiad yn cynnwys unrhyw sail statudol ar gyfer cau allan y wasg a’r cyhoedd. Fel y mae'r Prawf Budd y Cyhoedd yn ei nodi, mae dwy sail statudol y gall y Pwyllgor eu hystyried i benderfynu a ddylid cau allan y wasg a'r cyhoedd yn yr achos hwn ai peidio, e.e. sail statudol 15 yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n golygu bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sy'n cyfeirio at faterion cyflogaeth a allai arwain at ymgynghoriadau neu drafodaethau neu at ystyried trafodaethau neu ymgynghoriadau ynglŷn â materion cysylltiadau llafur, a sail statudol 13 sy'n cyfeirio at wybodaeth o fewn yr adroddiad sy'n debygol o ddatgelu pwy yw’r unigolyn dan sylw. Mae'r adroddiad yn cyfeirio

at drafodaethau a allai gael effaith ar ddau grŵp o aelodau staff pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynigion. Mae'r grwpiau hyn yn gymharol fach ac felly mae modd darganfod pwy ydynt ac felly maent yn disgyn i gategori 13. Pe bai'r Cyngor Llawn yn bwrw ymlaen â'r argymhellion yn yr adroddiad byddai'n rhaid ymgynghori / negodi gyda'r ddau grŵp o staff yr effeithir arnynt.

• Y budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, o gofio'r ddau ffactor uchod. Bydd angen trafod y penderfyniad terfynol gyda'r staff cyn i'r cynnig gael ei gyhoeddi i'w drafod. Ar hyn o bryd, cynigion i ymgynghori arnynt yn unig yw’r rhain ac efallai na fydd y rhai sy'n ymwneud â staff yn rhan o'r cynigion arfaethedig. Felly, mae’n dilyn na ddylid pryderu grwpiau unigol o staff ynghylch y cynigion hyn oni bai neu hyd nes eu bod yn rhan annatod o'r gyllideb derfynol. Datgelir y cynigion ar gyfer y gyllideb maes o law ac erbyn hynny bydd yr awdurdod wedi cael cyfle i ymgynghori â’r unigolion dan sylw. Mae'n bwysig bod staff yn cael gwybod am unrhyw gynigion o'r fath gan y Cyngor ei hun ac nid o'r cyfryngau. Hefyd, bydd Aelodau'n gallu archwilio a thrafod yr opsiynau a'r cynigion gyda mwy o ryddid ac yn fwy agored mewn sesiwn gaeedig nag y byddent pe bai’r cyhoedd yn bresennol.

**O ystyried y cyngor a ddarparwyd uchod, penderfynwyd dan Adran (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 cau allan y wasg a'r cyhoedd am y drafodaeth ar eitem 6 ar y rhaglen ar y sail ei bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf honno a’r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw.**

## 6 CYLLIDEB 2018/19 - Y BROSES HYD YMA

Cyflwynwyd i’w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn amlinellu cyd-destun y broses gosod cyllideb ar gyfer 2018/19. Roedd Atodiad 1 yn cynnwys adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 ar y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2018/19. Roedd yr adroddiad yn cynnwys datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â’r materion canlynol –

- Cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb
- Setliad cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol
- Y Dreth Gyngor
- Y sefyllfa mewn perthynas â‘r cronfeydd wrth gefn a'r balansau cyffredinol
- Cynigion ar gyfer arbedion
- Pwysau a blaenoriaethau cyllidebol
- Risgiau
- Effaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod yr adroddiad uchod yn dod â cham cyntaf y broses gosod cyllideb i ben, sef y broses fewnol a gynhaliwyd yn y Cyngor. Mae’r broses honno wedi cynnwys cael mewnbwn sylweddol gan Swyddogion ac Aelodau Etholedig mewn cyfarfodydd adolygu gwasanaethau a gweithdai cyllideb lle craffwyd ar bob un o’r cynigion ar gyfer arbedion a’u trafod a’u herio. Nid yw'r gwaith paratoadol hwn wedi bod yn hawdd, yn enwedig gan fod diffyg ariannol oddeutu £2m yn y gyllideb ddigyfnewid ar ôl cymryd i ystyriaeth y gwahanol bwysau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu mewn perthynas â chwyddiant cyflog, chwyddiant cyffredinol, y cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol, gostyngiad yn y gronfa grantiau a chwyddiant costau ynni. Mae'r rhestr o gynigion, er yn sylweddol, yn cynnig opsiynau ac felly'n rhoi elfen o hyblygrwydd o ran y penderfyniadau sydd angen eu gwneud.

Mae'n rhaid i’r Cyngor gyflwyno cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19; mae hyn hefyd yn bwysig o ran sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn ddigon gwydn i fedru cwrdd â’r heriau ariannol yn y blynyddoedd i ddod. Roedd y gwaith cychwynnol ar y gyllideb a adlewyrchwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol a gymeradwywyd ym mis Medi, 2017 yn

amcangyfrif y byddai angen  cyfanswm o £8.6m o arbedion dros y cyfnod 2018/19 i 2020/21. Rhagwelwyd hefyd y byddai'r bwlch ariannol yn 2018/19 yn £4m sy'n golygu y byddai gofyn i wasanaethau ddarganfod arbedion o 4%. O ganlyniad, roedd Penaethiaid Gwasanaeth wedi nodi arbedion posib o £3.296m.

Er yn well na'r disgwyl, roedd y setliad amodol i lywodraeth leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 10 Hydref, 2017 yn ostyngiad o 0.1% ar y swm a ddyrannwyd i Ynys Môn yn y flwyddyn flaenorol. O ystyried yr holl newidiadau i'r gyllideb y gwyddys amdanynt, gan gynnwys incrementau cyflog, chwyddiant, dyfarniad tâl, grantiau a chyfrifoldebau newydd, mae'r cyllid sydd raid wrtho i fedru cynnal cyllideb ddigyfnewid wedi cynyddu o £126m yn 2017/18 i £132m ar gyfer 2018/19. Roedd y datganiad ysgrifenedig a wnaed gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Gyllid a Llywodraeth Leol hefyd yn cyfeirio at £100m ychwanegol o fewn y setliad ar gyfer Cymru gyfan ynghylch elfennau ysgolion a gofal cymdeithasol (£62m a £42m yn y drefn honno). Fodd bynnag, ni chafwyd esboniad ar sut y cyrhaeddwyd y ffigurau hyn na'r swm ar gyfer Ynys Môn. Mae'n amlwg o'r ffigyrau nad yw'r ddarpariaeth ychwanegol a nodir wedi golygu arian ychwanegol hyd yma ar gyfer awdurdodau lleol.

Felly, bydd yn rhaid i'r Cyngor gwrdd â'r holl bwysau ychwanegol er mwyn cydbwyso cyllidebau gwasanaethau naill ai trwy wneud toriadau, cynyddu ffioedd a thaliadau neu drwy arbedion effeithlonrwydd pellach ar ben y cynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor y darperir ar ei gyfer yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol. Fodd bynnag, bwriedir ymgynghori â'r cyhoedd ar gynnydd ychwanegol o 1% yn y Dreth Gyngor a chlustnodi'r £338k ychwanegol y byddai hynny'n ei greu er mwyn ymateb i'r galw yn y Gwasanaethau Cymdeithasol lle mae gwariant ar blant sy'n derbyn gofal a'r lleoliadau all-sirol cysylltiedig yn golygu bod y gyllideb yn gorwario.

Er bod y setliad amodol yn well nag a ragwelwyd, dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod yr hinsawdd o lymder yn dal i fodoli ac nad yw'r angen i'r Cyngor ddarganfod a gwneud arbedion wedi mynd i ffwrdd. Er bod y bwlch cyllidebol posib yn 2018/19 bellach yn £2m yn hytrach na'r £4m a ragwelwyd yn wreiddiol yn y CATC, nid yw'r prognosis ar gyfer 2019/20 cystal. Er bod y setliad dros dro ar gyfer 2018/19 yn nodi y bydd y setliad posib ar gyfer 2019/20 yn gweld gostyngiad pellach o 1.5% sy'n gyson â'r rhagdybiaeth a wnaed yn y Cynllun gwreiddiol, mae'r sefyllfa o ran newidiadau sy'n gysylltiedig â thâl a'u heffaith ar y gyllideb yn waeth na'r disgwyl erbyn hyn h.y. codiadau cynyddrannol yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r posibilrwydd y ceir gwared ar y cap 1% ar y dyfarniad cyflog ar gyfer y sector cyhoeddus. Bydd y rhain yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn 2019/20. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith y bydd gofyn gwneud llai o arbedion dros y tair blynedd nesaf, sef £6.8m. Serch hynny, mae hwn yn parhau i fod yn swm sylweddol a heriol. Mae'r cynigion arbedion a gyflwynir yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ac maent yn gyfanswm o £3.3m er mai'r swm y bydd ei angen bellach am 2018/19 yw £2m. Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn penderfynu gwneud cymaint â phosib o'r arbedion hyn yn 2018/19 byddai'n helpu i leddfu'r baich ar gyllideb 2019/20.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts fod y Panel Sgriwtini Cyllid, yn ei gyfarfod ar 25 Hydref, 2017, wedi ystyried y broses flynyddol ar gyfer gosod y gyllideb ac wedi nodi'r canlynol -

- Bod mwy a mwy o grantiau refeniw yn cael eu trosglwyddo i'r setliad llywodraeth leol (£91.7m yn 2018/19). Yn achos Ynys Môn, trosglwyddwyd gwerth £2.343m o grantiau yn 2018/19 sy'n golygu nad yw'r setliad gwirioneddol ar gyfer Ynys Môn cystal ag y mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf.
- Bod y tybiaethau y mae'r gyllideb yn seiliedig arnynt yn gadarn ac yn realistig a rhoddwyd sylw da i'r risgiau.

- Er na fydd yn hawdd ymgynghori â'r cyhoedd ar sail cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor, cytunodd y Panel gyda'r egwyddor na ddylid defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol i leihau lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor.
- Nid oedd y Panel yn unfrydol y dylai'r arian a gynhyrchir gan y cynnydd ychwanegol o 1% yn y Dreth Gyngor gael ei glustnodi ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol. Os yw'r sefyllfa ariannol yn golygu bod angen cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor yna gellid gwneud achos na ddylai'r cynnydd o 1% fod wedi'i neilltuo ar gyfer adran benodol ac y dylai fod ar gael i'w ddefnyddio ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth y pwyntiau canlynol –

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar effaith yr arbedion arfaethedig cychwynnol ar drigolion Ynys Môn a'r gwasanaethau a ddarperir iddynt. Dywedodd Arweinydd y Cyngor, er y bydd rhai o'r cynigion yn cael effaith ar ysgolion, ystyrir mai hon yw'r gyllideb ddiwethaf na fydd yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar drigolion, a hynny gan nad oes cynnig i gau cyfleuster neu i ddod â gwasanaeth i ben. Mae cyllideb 2019/20 yn debygol o fod yn llawer mwy o her oherwydd y pwysau ychwanegol nad oes modd eu mesur ar hyn o bryd ar gyllidebau tâl.
- Nododd y Pwyllgor y bydd yr effaith yn 2019/20 yn debygol o fod yn fwy difrifol os yw'r Cyngor yn penderfynu defnyddio'r setliad gwell na'r disgwyl i leihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor a / neu'r arbedion yn 2018/19. **Gwell ceisio cyflawni'r cynigion yn llawn er mwyn lliniaru'r effeithiau yn 2019/20 a chryfhau gwytnwch y Cyngor i gwrdd â heriau yn y dyfodol.**
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y posibilrwydd y byddai'r gyllideb yn cynnwys £125k ar gyfer y Tîm Ynys Ynni fel parhad o'r £125k a ddarparwyd yn 2017/18 ond a dynnwyd o'r gyllideb ddigyfnewid ers hynny ar y sail na roddwyd caniatâd pellach gan y Pwyllgor Gwaith. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd cynnwys yr arian hwn yn y gyllideb yn rhoi sicrwydd a dilyniant, a hynny yn ôl yr un egwyddor ag a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith blaenorol. Byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio i gydlynu cyfrifoldebau cydsynio statudol y Cyngor a gweithgareddau anstatudol sy'n deillio o'r prosiectau mawr arfaethedig cyhyd â bod angen y tîm.
- Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion am yr arian a gynhyrchwyd gan y premiwm ail gartrefi ac awgrymodd na ddylai hyn fod yn rhan o'r gyllideb refeniw. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y gyllideb wedi'i gosod yn wreiddiol ar £564k ond mai'r debyd ychwanegol gwirioneddol a godwyd gan y premiwm oedd £984k a bod y ffigwr hwn wedi bod yn weddol gyson ers dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r ffigyrau'n dangos bod y mwyafrif o'r trethdalwyr sy'n gorfod talu'r premiwm wedi gwneud hynny; fodd bynnag, y bwriad yw cynyddu'r gyllideb i 80% o'r ffigwr hwn er mwyn darparu ar gyfer y risg y bydd yr arian a godir gan y premiwm yn lleihau.
- **Roedd gan y Pwyllgor amheuon ynghylch clustnodi'r cynnydd ychwanegol o 1% yn y Dreth Gyngor i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a hynny, yn y lle cyntaf, oherwydd y gofynnwyd i'r Gwasanaeth gynhyrchu mesurau lliniaru i atal y gorwariant a dylai orfod adrodd ar y rhain; ac yn ail, gallai gwybod bod arian ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol olygu bod llai o gymhelliant i'r gwasanaeth gynhyrchu mesurau lliniaru; ac yn drydydd, mae amddiffyn gwasanaeth penodol yn annheg i'r gwasanaethau eraill nad oes ganddynt unrhyw rwyd diogelwch o'r fath. Os oes pwysau ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn genedlaethol ac yn benodol ar y Gwasanaethau Plant oherwydd bod mwy o alw, yna dylid cysylltu â Llywodraeth Cymru trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.**

Dywedodd y Prif Weithredwr fod nifer y plant y mae'r Awdurdod yn gofalu amdanynt wedi cynyddu o 80 ym mis Mawrth, 2015 i 142 ar hyn o bryd, ac er ei fod wedi sefydlogi ers hynny, mae'r risg o gynnydd pellach yn parhau. Mae'r patrwm hwn yn cael ei ailadrodd yn genedlaethol a bu trafodaethau ar lefel ranbarthol ynghylch codi'r mater â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, y consensws ar hyn o bryd yw y dylid ystyried y mater ymhellach.

Mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Gwasanaethau Plant yn benodol yn ymwybodol bod angen mynd i'r afael â'r mater ac yn arbennig y lleoliadau all-sirol arbenigol sy’n gallu costio’n sylweddol. Gall un lleoliad o'r fath gostio hyd at £250k y flwyddyn ac mae’n cael effaith gysylltiedig ar gost y ddarpariaeth addysg. Mae'r gwasanaeth wedi adolygu pob lleoliad ac mewn ymateb i'r Panel Sgriwtini Cyllid mae'n paratoi papur ar gostau lleoliadau all-sirol yn y Gwasanaethau Plant yn ogystal â'r Gwasanaeth Dysgu; bydd y papur hefyd yn ceisio adnabod y rhesymau dros y gwariant yn y maes hwn a’r mesurau y gellir eu cymryd. Nid yw hon yn dasg hawdd o gofio bod hwn yn gyfrifoldeb statudol a bod y gyllideb yn cael ei harwain gan y galw, sy'n ei gwneud yn anoddach i geisio rhagweld lefel y gwariant gydag unrhyw sicrwydd.

• Nododd y Pwyllgor y gallai'r cynigion effeithio'n negyddol ar ysgolion, yn enwedig yr ysgolion hynny sydd â dim ond ychydig o arian wrth gefn ac a allai orfod adolygu eu cyllidebau staffio i gwrdd â gofynion ychwanegol. Gallai hyn, yn ei dro, gael effaith ar safonau addysg ar adeg pan fo’r Awdurdod yn canolbwyntio ar godi safonau a pherfformiad ysgolion. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151, unwaith y bydd cwantwm ysgolion wedi lleihau, yna caiff y toriadau eu gweithredu yn ôl fformiwla ac ni ellir eu pwysoli na'u targedu i ysgolion unigol. Serch hynny, mae gan y sector cynradd yn Ynys Môn y lefel uchaf o gronfeydd wrth gefn yng Nghymru, er y gall bod gan ysgolion unigol o fewn y sector ddiffygion ariannol.

• **Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y cynnig i ddirprwyo mwy o'r gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw i ysgolion.** Dywedodd y Pennaeth Dysgu mai'r bwriad yw lleihau'r rhan honno o'r gyllideb atgyweirio a chynnal a gedwir yn ganolog a dirprwyo mwy o'r arian I’r ysgolion fel bod ganddynt fwy o reolaeth dros y ffordd y caiff eu hanghenion atgyweirio a chynnal a chadw eu diwallu, gan arwain at arbedion posibl ar eu cyfer. **Awgrymodd y Pwyllgor y gellid esbonio'r cynnig yn well cyn iddo gael ei gyflwyno i'r cyhoedd. Awgrymodd y Pwyllgor ymhellach, er mwyn eglurder ac i osgoi camddealltwriaeth, y dylid newid y cyfeiriad cyntaf at glwb brecwast ysgol yn llinell 6 y cynigion i ddarllen clwb "gofal plant".**

• **Er bod y Pwyllgor yn nodi y byddai wedi hoffi gweld mwy o gynigion yn y rhestr a fyddai’n cynhyrchu incwm i'r Cyngor, roedd yn fodlon bod y cynigion yn gyffredinol yn darparu ystod deg, resymol a phriodol o opsiynau ar gyfer symud ymlaen i ymgynghori â'r cyhoedd.**

**Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â’r safbwyntiau a fynegwyd, penderfynodd y Pwyllgor argymell y cynigion arbedion ar gyfer 2018/19 i’r Pwyllgor Gwaith. (Ymataliodd y Cynghorydd Aled Morris Jones rhag pleidleisio)**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**